


Polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol

2021-22



Cyngor Dinas Casnewydd – Gwasanaeth Addysg

Polisi Trafnidiaeth Cartref i'r Ysgol

Darperir trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion oed cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o ddalgylch yr ysgol neu'r ysgol agosaf, ac ar gyfer disgyblion oed uwchradd (hyd at ddiwedd Blwyddyn 11) sy'n byw 3 milltir neu fwy o ddalgylch yr ysgol neu'r ysgol agosaf.

Mae hyn yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd. Yn ogystal â hyn, mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn nodi bod plentyn yn gymwys am drafndiaeth i'r ysgol o'r cartref am ddim i ysgol amgen os yw hon yn agosach na'r ysgol ddalgylch ac os y bodlonir y pellter cymwys.

Mae gan bob ysgol ardal ddalgylch benodol ond yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Cyngor, gall rhieni fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol y mae am i'w plentyn ei mynychu. Os yw rhieni/gofalwyr yn dewis anfon eu plentyn i ysgol nad yw yn nalgylch yr ysgol, y nhw fydd yn gyfrifol am yr holl gostau a'r trefniadau trafndiaeth cysylltiedig.

Os bydd cais i ysgol a ffeirir yn aflwyddiannus, bydd disgyblion ond yn gymwys i gael cymorth gyda thrafndiaeth os byddant yn mynychu naill ai'r ysgol dalgylch fel dewis amgen, neu'r ysgol agosaf nesaf sydd ar gael fel y penderfynir gan y Tîm Derbyn i Ysgolion, ac ar yr amod y bodlonir y meini prawf pellter. Os byd rhieni'n dewis ysgol arall nad yw'n ysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf a bennwyd sydd ar gael fel y pennwyd gan y Tîm Derbyn i Ysgolion, bydd rhieni/gofalwyr yn llwyr gyfrifol am yr holl gostau trafndiaeth a threfniadau.

Mater i'r cyngor yw pennu'r llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, gan ddefnyddio eu meddalwedd pennu llwybrau penodol eu hunain, ac mae'n bosibl mai nid dyma fyddai'r llwybrau a ddewisir gan y plentyn. Mae'r offeryn meddalwedd mesur wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth Gwasanaethau'r Ddinas ac wedi'i brofi a'i gymeradwyo ymhellach gan Bwyllgor Craffu y Cyngor. Er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb ar gyfer pob cais, dyma'r unig offeryn mesur a gaiff ei ddefnyddio gan yr ysgolion.

Wrth bennu cymhwysedd ar gyfer ceisiadau am drafndiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim, caiff pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael rhwng mynedfa / gât flaen agosaf y cartref a mynedfa/gât agosaf yr ysgol. Mae'r cyngor yn ystyried bod llwybr 'ar gael' os gall plentyn, wedi'i hebrwng yn ôl yr angen, gerdded i'r ysgol yn rhesymol ddiogel. Mater i'r rhieni unigol, nid y cyngor yw pennu a oes angen i'r blentyn gael ei hebrwng.



Wrth asesu argaeledd llwyr, bydd y cyngor yn edrych ar y risgiau y gallai plentyn, wedi'i hebrwng yn ôl yr angen ddod ar eu traws ar hyd y llwybr rhagnodedig (gan gynnwys er enghraifft, camlesi, afonydd, ffosydd, goleuadau stryd, palmentydd a chyflymder traffig ar hyn ffyrdd ayyb). Mae'r asesuadau'n cael eu cynnal ar adeg y dydd ac ar ddyddiau'r wythnos y byddai disgwyl i ddisgyblion ddefnyddio'r llwybr.

Wrth gynnal yr asesiad, bydd y cyngor yn dilyn y canllawiau a ragnodir yn Narpariaeth Statudol ar gyfer Teithio i Dysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014). Yn unol â'r canllawiau hyn, mae'n rhaid i'r cyngor ystyried bod llwybr yn "ddiogel" ac felly yn ystyried ei fod "ar gael" oni bai y byddai graddau'r risg dan sylw yn golygu bod unrhyw oedolyn sy'n hebrwng y plentyn mewn perygl sylweddol gan draffig.

Weithiau bydd angen i'r cyngor drefnu pwyntiau casglu i blant pan na fydd yn bosibl i gerbydau basio heibio pob cartref. Fel arfer, dylai'r pwynt gasglu fod yn llai na milltir i ffwrdd o'r cartref. Hefyd gellir darparu trafndiaeth am ddim mewn achosion eithriadol pan fydd y cyngor yn penderfynu nad oes unrhyw lwybr addas ar gael i'r ysgol. Byddai angen i faint o risg sy'n gysylltiedig â hyn olygu y byddai'r unigolyn sy'n hebrwng y plentyn mewn perygl sylweddol gan y sefyllfa draffig benodol.

Gall disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol gael mynediad at y rhwydwaith bysiau lleol fel teithwyr sy'n talu. Mae'n bosibl hefyd y bydd seddau consesiynol ar gael i'w prynu ar gerbydau dan gcontract, a chaiff hyn ei weinyddu gan Bennaeth y Strydlun.

Mae'n ofynnol i rieni/gofalwyr wneud cais newydd parthed pob plentyn bob blwyddyn academaidd, ac ni ddylid cymryd y bydd cais newydd yn llwyddiannus oherwydd bod plentyn yn derbyn cymorth ar hyn o bryd. Gallai plentyn stopio â bod yn gymwys ar gyfer trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim os bydd newid i'w ysgol neu ei gyfeiriad gartref, neu os bydd y cyngor yn nodi llwybr cerdded byrrach sydd ar gael o fewn terfyn y meini prawf pellter. Os bydd plentyn yn symud ysgolion neu gartref yn ystod blwyddyn academaidd, dylai rhieni/gofalwyr ddweud wrth y cyngor ar unwaith, gan y gallai hyn gael effaith ar

Gwybodaeth arall

- Trefnir a gweinyddir trafndiaeth am ddim gan y cyngor ac ni chaiff rhieni eu had-dalu am drefniadau lleol unigol lle y mae trafndiaeth y Cyngor ar gael;
- Ni fydd disgyblion sy'n symud eu cartref i gyfeiriad y tu allan i ddalgyrch eu hysgol fel arfer yn parhau i dderbyn trafndiaeth am ddim i'r ysgol honno os bydd y symud yn digwydd yn ystod y flwyddyn gyntaf neu'r ail flwyddyn o addysg. Caiff ceisiadau gan disgyblion sy'n symud tŷ yn ystod y drydedd flwyddyn neu ar ôl hynny eu hystyried os gellir darparu trafndiaeth gan y gwasanaeth presennol yng Nghasnewydd yn unig.



- Gellir darparu trafndiaeth am ddim o dan amgylchiadau eithriadol ar seiliau meddygol parthed disgyblion sy'n byw yn nalgylch eu hysgol. Mae'n rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan adroddiad meddyg ymgynghorol diweddar yn argymhell trafndiaeth arbennig am gyfnod penodedig;
- Ni ddarperir trafndiaeth am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion preifat;
- Nid oes unrhyw fecanwaith apelio yn erbyn penderfyniadau i wrthod ceisiadau am gymorth trafndiaeth cartref i'r ysgol er y gall y Prif Swyddog Addysg, o dan rai amgylchiadau penodol, ystyried ceisiadau am gymorth ariannol y tu allan i'r polisi y cytunwyd arno.

Myfyrwyr Ôl-16

Nid oes gan y cyngor rwymedigaeth statudol i ddarparu cymorth trafndiaeth i fyfyrwyr ôl-16. Fodd bynnag, mae grantiau teithio Ôl-16 yn wasanaeth yn ôl disgrisiwn gan y cyngor ac maent ar gael i ddisgyblion rhwng 16 a 18 oed sy'n ymgymryd â chysiau addysgol amser llawn mewn lleoliad ysgol neu goleg. Mae disgyblion yn gymwys i gael grant os byddant yn byw 3 milltir neu'n fwy o'r ysgol dalgylch, neu'r coleg agosaf i'w cyfeiriad cartref sy'n darparu'r cwrs astudio a ddewiswyd.

Ni ddarperir grantiau i ddisgyblion a fydd yn cyrraedd 19 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, oni bai eu bod yn parhau, heb seibiant, ar gwrs o astudio a ddechreuodd mewn blwyddyn academaidd flaenorol.

Mae disgyblion ôl-16 yn rhydd i ddefnyddio'r grant teithio hwn ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf addas at eu hanghenion. Os byddant yn dewis defnyddio rhwydwaith y gwasanaeth bysiau lleol, byddant yn gallu prynu gan ystod o docynnau yn uniongyrchol o ddarparwr y rhwydwaith bysiau lleol.

Pan fydd disgyblion Ôl-16 yn mynychu ysgol na chaiff ei gwasanaethu gan y rhwydwaith bysiau lleol, gall rhieni brynu sedd ar gerbyd o dan gontract o'r cyngor ar gost sedd consesiynol y cytunwyd arni am y flwyddyn. Didynnir gwerth y grant teithio o'r swm hwn.

Awdur: Deborah Weston - Pennaeth Cynorthwyol Addysg – Adnoddau

Dyddiad: Awst 2021

Dyddiad Adolygu: Awst 2022

Fersiwn: 1.4

